



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Canllawiau Cyllido ar gyfer Addysg Nyrsys Cymunedol Arbenigol (SPQ)

ac

Addysg i gynorthwyo i ddarparu Gofal yn y Gymuned (Amlbroffesiwn)



Medi 2020

Cynnwys

Tuddalen 3	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyniad• Trosolwg cyllido• Cyllid Rhan1 a 2
Tuddalen 4	<ul style="list-style-type: none">• Cyllid Rhan 3
Tuddalen 5	<ul style="list-style-type: none">• Dethol• Diogelu Data• Cofrestru• Costau Teithio• Manylion cyswllt



Cyflwyniad

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Mae datblygu'r gweithlu mewn lleoliadau cymunedol a gofal sylfaenol yn cynnwys nyrsys sy'n dilyn Cymwysterau Practis arbenigol/graddau iechyd cymunedol a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol a Fferyllwyr sy'n gweithio ochr yn ochr a gyda thimau nyrsio cymunedol/Practisau Meddygon Teulu. Mae'r nodiadau sy'n dilyn yn egluro'r trefniadau manwl ar gyfer ariannu'r hyfforddiant hwn ar lefel Cymru gyfan.

Trosolwg Cyllido

Daw cyllid ar gyfer addysg gymunedol mewn tair rhan:

1. Cyllid rhan amser i gwblhau'r rhaglen dros gyfnod o ddwy flynedd
2. Cyllid i fodiwl sylfaen ar gyfer Nyrsys Cymunedol/Practis i gwblhau modiwl "hanfodion ymarfer cymunedol" SPQ neu BSc/PG Dip
3. Cyllid modiwlau ychwanegol ar gyfer:
 - o Nyrsys Cymunedol/Practis i gwblhau'r rhaglen astudiaethau iechyd cymunedol SPQ neu BSc/PG Dip fel modiwlau
 - o Nyrsys Cymunedol/Practis i gael addysg ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ychwanegol i ehangu cwmpas eu hymarfer
 - o Gweithwyr Iechyd Perthynol Proffesiynol (AHP) a Gwyddonwyr Gofal Iechyd (HCS) sy'n gweithio mewn lleoliad gofal cymunedol neu sylfaenol i gynorthwyo gwasanaethau a ddarperir yn y manau hyn i gael addysg i ddatblygu addysg gwybodaeth a sgiliau ychwanegol.

Cyllid Rhan 1 a 2

Mae'r cyrsiau gradd nyrsio cymunedol arbenigol sy'n cael eu comisiynu a'u hariannu ar hyn o bryd gan AaGIC ar gyfer GIG Cymru a staff a gyflogir gan Feddygon Teulu fel a ganlyn:

- Nyrsio Ardal
- Nyrsio Practis
- Nyrsio Paediatrig Cymunedol
- Nyrsio Seiciatrig Cymunedol
- Nyrsio Anabledau Dysgu Cymunedol

Gall myfyrwyr ddilyn addysg nyrsio cymunedol arbenigol yn rhan amser neu fel modiwlau i gael Cymhwyster Ymarfer Arbenigol (SPQ) sy'n cael ei gydnabod gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) neu radd BSc/PG Dip mewn

Astudiaethau Iechyd Cymunedol. Bydd cyrsiau rhan amser a modiwlau yn cael eu hariannu gan AaGIC **hyd at adeg cyflawni'r** cymhwyster ymarferydd arbenigol /BSc/PG Dip Astudiaethau Iechyd Cymunedol yn unig. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n dymuno cwblhau trydedd blwyddyn a fydd yn arwain at radd MSc mewn Astudiaethau Iechyd Cymunedol wneud trefniadau ariannu eraill.

Dilynir y llwybr rhan amser yn rhan amser a bydd yn cael ei gwblhau mewn cyfnod o 2 flynedd fel arfer. Mae'r llwybr modiwlau yn galluogi myfyrwyr i ddilyn un neu fwy o fodiwlau penodol a addysgir dros gyfnod amhenodol. Mae myfyrwyr sy'n dilyn y llwybr modiwlau yn cwblhau Hanfodion Ymarfer Cymunedol fel eu modiwl cyntaf. Ar ôl cwblhau'r modiwl Hanfodion Ymarfer Cymunedol gall myfyrwyr ddewis a ydynt am gwblhau modiwl(au) eraill ynteu a ydynt am adael y rhaglen.

Ar ôl cwblhau'r modiwlau angenrheidiol (120 credyd) a'r oriau clinigol yn llwyddiannus, gall myfyrwyr gael SPQ (os ydynt yn cyflawni gofynion y SPQ) neu ddyfarniad BSc/PG Dip mewn Astudiaethau Iechyd Cymunedol.

Dylai pob darpar ymgeisydd ar gyfer y cwrs nyrsio cymunedol arbenigol sicrhau eu bod wedi cael cytundeb eu cyflogwr i'w rhyddhau ar gyfer yr hyfforddiant cyn cyflwyno cais am le ar gwrs gyda Sefydliad Addysg Uwch (HEI) yng Nghymru.

Cyllid Rhan 3

Yn draddodiadol mae cyllid iechyd cymunedol wedi'i gyfyngu i nyrsys er mwyn eu galluogi i gwblhau gradd gydnabyddedig mewn iechyd cymunedol. Fodd bynnag, gyda gofal iechyd yn symud tuag at ofal yn nes i'r cartref, a gyda chynnydd mewn darpariaeth gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol eraill yn y gymuned ac mewn ymateb i'r datblygiad hwn a dylanwadau allweddol a ysgogwyr polisi fel "Cynllun Oes" ac yn fwy diweddar "Cymru Iachach" (2016) a "Gofal Iechyd Darbodus" (2015).

Mae'n hanfodol bod datblygiad yr AHP cymunedol a'r gweithlu HCS hefyd yn ystyriaeth ynghyd â datblygiad timau nyrsio cymunedol, sy'n cynnwys amrywio'r gymysgedd sgiliau a'r proffesiynau sy'n ffurfio'r timau hynny. Felly, bydd ariannu'r modiwlau ychwanegol yn ariannu addysg i'r grwpiau proffesiynol hyn yn ogystal â nyrsys i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i ehangu cwmpas eu hymarfer.

Dethol

Bydd pob Darparwr Addysg sydd â contract ag AaGIC i redeg y rhaglenni addysg hyn yn cael eu hysbysu'n flynyddol o nifer y myfyrwyr a ariennir gan GIG Cymru a gomisiynwyd ar gyfer eu rhaglen er mwyn iddynt recriwtio hyd at y nifer hwn. Mae AaGIC yn nodi nifer penodol o leoedd sydd i'w llenwi yn y modiwl hanfodion gofal ar gyfer pob arbenigedd e.e. Nyrsio Ardal, Paediatreg

Cymunedol ac yn y blaen, gyda chapasiti ychwanegol ar gael i helpu staff i ddilyn ail, trydydd a phedwerydd modiwl er mwyn cyflawni dyfarniad academaidd.

Dylai'r Darparwr Addysg sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu dethol ar gyfer y cwrs yn seiliedig ar y meini prawf dethol y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng y Darparwr Addysg a'r Sefydliad cyflogi, a chynnwys cynrychiolaeth briodol o sefydliadau cyflogi ar y panel dethol.

Bydd y Darparwr Addysg yn paratoi adroddiad yn flynyddol i AaGIC sy'n cynnwys manylion am yr holl unigolion sydd wedi manteisio ar y cyllid hwn.

Diogelu Data

Bydd yr holl staff sy'n cael cyllid yn cytuno y gall y darparwr addysg y maent yn astudio â hwy rannu eu gwybodaeth bersonol ag AaGIC yn yr adroddiad blynyddol i ddibenion monitro. Rhaid i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Addysg Uwch gynnwys hysbysiadau preifatrwydd yn eu proses ymgeisio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

Cofrestru

Drwy gydol eu cwrs, **RHAID** i fyfyrwyr unigol gadw eu cofrestriad proffesiynol. Dylai trefniadau lleol fod ar waith i sicrhau hyn. Mae Myfyrwyr a'u cyflogwr yn gyfrifol gyda'i gilydd am sicrhau bod eu cofrestriad proffesiynol yn parhau'n gyfredol drwy gydol eu cyfnod ar y cwrs.

Costau Teithio

Noder mai **dim ond ffioedd y cwrs sy'n cael eu hariannu** gan AaGIC. Ni ad-delir unrhyw gostau teithio cysylltiedig.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen eglurhad pellach, anfonwch e-bost i HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk or ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk

